
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 179A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif drwy hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins a Nick Selwyn o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae problemau hirsefydlog o ran diwylliant, perfformiad ac arweinyddiaeth, ynghyd â gallu corfforaethol cyfyngedig, wedi arwain at anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y mae'r Cygnor yn cynllunio, yn trefnu ac yn cyflawni gwell gwasanaethau i'w ddinasyddion 8

Cymysg fu'r perfformiad yn 2011-12 gydag amrywiadau mawr rhwng gwasanaethau ac mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith er mwyn ateb yr heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol y mae Blaenau Gwent yn eu hwynebu 8

Nid oes gan y Cyngor y gallu corfforaethol na'r berchenogaeth sydd eu hangen i herio ac ysgogi gwelliant yn gyson yng ngwasanaethau'r Cyngor. Mae gwendidau hirsefydlog o ran y ffordd y caiff y fframwaith corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad a gwella ei gymhwyso, ynghyd ag asesiad anghyson o gynnydd, yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ei drefniadau hunanwerthuso 17

Mae'r Cyngor yn annhebygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13 oni fydd yn cyflymu'r broses newid ac yn rhoi ei gynlluniau ar waith er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy ac effaith. Byddwn yn gwerthuso cynnydd fel rhan o'n rhaglen waith yn 2013-14 23

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 32

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Flaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 33

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 34

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 37

Atodiad 5
Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 39

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod problemau hirsefydlog o ran diwylliant, perfformiad ac arweinyddiaeth, ynghyd â gallu corfforaethol cyfyngedig, wedi arwain at anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cynllunio, yn trefnu ac yn cyflawni gwell gwasanaethau i'w ddinasyddion.

3 Yn y rhan gyntaf o'n hadroddiad, rydym yn dod i'r casgliad mai cymysg fu'r perfformiad yn 2011-12 gydag amrywiadau mawr rhwng gwasanaethau gwahanol a bod angen i'r Cyngor wneud mwy o waith er mwyn ateb yr heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol y mae Blaenau Gwent yn eu hwynebu. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn helpu oedolion sy'n agored i niwed i barhau'n annibynnol ac mae'n perfformio'n well na chynghorau eraill yng Nghymru ar y cyfan ond mae gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol ac maent yn debygol o fod yn anghynaliadwy heb adnoddau ychwanegol na ffyrdd newydd o weithio.
- Erys gwasanaethau addysg yn anfoddhaol o hyd.
- Mae'r dirwasgiad economaidd presennol yn cyfrannu at ddiweithdra cynyddol ac mae nifer y busnesau preifat newydd ym Mlaenau Gwent wedi lleihau er gwaethaf buddsoddiad sylweddol gan y Cyngor. O ran cystadleurwydd, Blaenau Gwent yw'r ardal leiaf atyniadol o ran mewnfuddsoddi yn y DU.
- Nid yw'n amlwg a yw buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn gwella cyflwr y ffyrdd ym Mlaenau Gwent. Mae diogelwch fel y'i mesurir yn ôl damweiniau ar y ffyrdd wedi gwella'n sylweddol ond nid yw'r Cyngor wedi annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.
- Nid yw gweithgarwch adfywio canol trefi yn arwain at welliannau sylweddol i ddinasyddion.
- Mae perfformiad o ran creu amgylchedd glân, diogel a chynaliadwy a gwella prosesau rheoli gwastraff a gwasanaethau ailgylchu yn gwella ond ar sail rhai dangosyddion mae'r Cyngor dipyn yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r ffordd y prosesir ceisiadau Budd-dal Tai yn gwella.
- Mae'r Cyngor yn gwella ei wasanaethau Cymraeg ac mae mwy o waith yn yr arfaeth ar gyfer 2013-14.

4 Yn yr ail ran o'n hadroddiad, rydym yn dod i'r casgliad nad oes gan y Cyngor y gallu corfforaethol na'r berchenogaeth sydd eu hangen i herio ac ysgogi gwelliant yn gyson yng ngwasanaethau'r Cyngor. Mae gwendidau hirsefydlog o ran y ffordd y caiff y fframwaith corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad a gwella ei gymhwyso, ynghyd ag asesiad anghyson o gynnydd, yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ei drefniadau hunanwerthuso. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009. Fodd bynnag, gallai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae gan y Cyngor fframwaith ar gyfer rheoli a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad, ond oherwydd anghysondebau yn y ffordd y caiff ei gymhwyso a diffyg perchenogaeth a gallu corfforaethol i herio ac ysgogi gwelliant, nid yw'r fframwaith bob amser yn gynhwysfawr, yn gadarn nac yn effeithiol.
- Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor wedi'i strwythuro'n dda ac nid yw'n hawdd ei ddarllen, sy'n gwanhau atebolrwydd ac yn ei rwystro rhag barnu cynnydd ac effaith yn effeithiol.
- Nid yw'r Cyngor yn gallu barnu'n gyson pa mor dda y mae'n perfformio oherwydd gwendidau o ran ystod ac ansawdd ei fesurau perfformiad a chyfyngiadau yn ei werthusiad o gynnydd.
- Nid yw dibynadwyedd data i reoli gwybodaeth am berfformiad mewn rhai gwasanaethau yn gyson nac yn gadarn eto.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn annhebygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13 oni fydd yn cyflymu'r broses newid ac yn rhoi ei gynlluniau ar waith i sicrhau gwelliant cynaliadwy a chael effaith. Byddwn yn gwerthuso cynnydd fel rhan o'n rhaglen waith yn 2013-14. Nodwyd y canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor yn cymryd camau'n araf i fynd i'r afael â'i wendidau hirsefydlog o ran diwylliant, perfformiad ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, bydd angen cyflwyno newidiadau yn llawer cynt ac ar raddfa lawer mwy dros y chwe mis nesaf ac nid yw'n sicr a fydd y Cyngor yn cyflawni gwelliant cynaliadwy a chyson mewn gwasanaethau i ddinasyddion ym Mlaenau Gwent.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae systemau rheoli cyllidebol yn parhau i weithio'n effeithiol ond mae diffyg yng nghyllideb 2012-13 a gwendidau yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cynnig heriau sylweddol o ran cynnal gwasanaethau yn y tymor canolig a'r hirdymor.

- Ym mis Tachwedd 2011 canfu ein hadolygiad o Adnoddau Dynol, er bod polisïau Adnoddau Dynol yn rhoi sylfaen y gellid adeiladu arni, nad oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i ddarparu gwasanaethau Adnoddau Dynol a oedd yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus.

- Mae partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent ac maent wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.

- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni 'Y Gweithfeydd: Glynebwy' (Y Gweithfeydd).

- Nid yw trefniadau llywodraethu na rheoli prosiect Ardal Adnewyddu Six Bells yn gynhwysfawr ac nid ydynt wedi helpu'r Cyngor i adfywio cymuned Six Bells yn effeithiol yn ôl y bwriad.

- Mae Gwasanaeth Cyflawniad Addysg newydd ar gyfer De-ddwyrain Cymru wedi cael ei greu ac mae'n canolbwyntio ar wella lefelau cyrhaeddiad o fewn ysgolion ond mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar effaith y gwasanaeth.

- Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli gwybodaeth yn datblygu ac nid ydynt wedi'u sefydlu'n llawn eto. Mae'r cydweithredu cynyddol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sicrhau manteision a dylai roi'r cyfle i'r Cyngor wneud cynnydd yn gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau cyfredol.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae problemau hirsefydlog o ran diwylliant, perfformiad ac arweinyddiaeth, ynghyd â gallu corfforaethol cyfyngedig, wedi arwain at anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cynllunio, yn trefnu ac yn cyflawni gwell gwasanaethau i'w ddinasyddion

### Cymysg fu'r perfformiad yn 2011-12 gydag amrywiadau mawr rhwng gwasanaethau ac mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith er mwyn ateb yr heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol y mae Blaenau Gwent yn eu hwynebu

10 Rhwng 2008 a 2012 pennodd y Cyngor bedwar canlyniad strategol iddo'i hun a oedd yn crynhoi'n fras y meysydd â blaenoriaeth y mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio eu gwella ar gyfer eu dinasyddion a'i gymunedau. Canolbwyntiodd y blaenoriaethau strategol ar y canlynol:

- mae'r Cyngor yn gweithredu fel busnes effeithiol;
- mae gan oedolion ansawdd bywyd gwell;
- mae gan blant a phobl ifanc lefel uchel o uchelgais i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn;
- amgylchedd sy'n lân, yn ddiogel ac yn gynaliadwy ac sy'n cefnogi adfywio cymdeithasol a ffisegol.

11 Isod ceir dadansoddiad cryno o ba mor dda y mae'r Cyngor wedi perfformio wrth gyflawni gwelliant yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn 2011-12. Nid ydym wedi adolygu perfformiad yn erbyn pob un o amcanion gwella'r Cyngor.

### Mae'r Cyngor yn helpu oedolion sy'n agored i niwed i barhau'n annibynnol ac mae'n perfformio'n well na chynghorau eraill yng Nghymru ar y cyfan ond mae gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol ac maent yn debygol o fod yn anghynaliadwy heb adnoddau ychwanegol na ffyrdd newydd o weithio

12 Oherwydd y lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, mae Blaenau Gwent yn ardal lle mae gan lawer o bobl anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sylweddol. Er mwyn diwallu'r anghenion hyn mae angen cymorth gan y Cyngor a'i bartneriaid lleol i alluogi trigolion sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Yn 2011-12 canolbwyntiodd y Cyngor ar helpu pobl i fyw'n annibynnol drwy bedair rhaglen waith gyffredinol: parhau i ad-drefnu gwasanaethau cartrefi preswyl a nyrsio i bobl hŷn; gweithredu model newydd o ofal yn y cartref; comisiynu rhagor o gynlluniau tai â gofal ychwanegol a gweithredu rhaglen Eiddilwch Gwent.

13 Yn 2012-13 y bwriedir i'r rhan fwyaf o'r prosiectau hyn gael eu cwblhau. Eto i gyd, mae perfformiad y Cyngor o'i gymharu â data cymharol cenedlaethol yn rhoi darlun cadarnhaol ar y cyfan ac un sy'n gwella o ran perfformiad er mwyn helpu pobl i barhau'n annibynnol:

- Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd wedi lleihau o 3.91 yn 2010-11 i 1.23 yn 2011-12. Y Cyngor yw'r pedwerydd perfformiwr gorau o blith y 22

o gynghorau yng Nghymru yn 2011-12 gyda pherfformiad sy'n sylweddol well na chyfartaledd Cymru sef 5.03.

- Mae nifer y bobl hŷn a gafodd gymorth i fyw gartref, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd, wedi lleihau ychydig o 142.81 yn 2010-11 i 140.73 yn 2011-12. Er hyn, Blaenau Gwent yw'r cyngor gorau ond un yng Nghymru ac mae ei berfformiad dipyn yn well na chyfartaledd Cymru sef 78.6.
- Yn 2011-12 rhoddodd y Cyngor gymorth i 87.5 y cant o oedolion yr oedd yn ymdrin â hwy i fyw'n annibynnol yn y gymuned, sef yr wythfed perfformiad gorau o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru ac yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 86.55 y cant.
- O ran nifer y bobl mewn gofal preswyl a nyrsio a ariennir gan yr awdurdod lleol, y Cyngor yw'r pedwerydd uchaf yng Nghymru. Cofnododd y Cyngor gyfradd o 24.32 o bobl hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd mewn cartrefi gofal yn 2011-12, o gymharu â 23.6 yn 2010-11. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 21.35.
- Yn 2011-12 y Cyngor oedd â'r lefel uchaf ond un o wariant refeniw y pen o'r boblogaeth ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

14 Cyhoeddodd AGGCC *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-2012* ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent ym mis Hydref 2012. Mae'r adroddiad gwerthuso yn amlinellu nifer o feysydd lle y gwnaed cynnydd yn ogystal â meysydd i'w gwella neu eu datblygu. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan AGGCC: (www.wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/lareviews/20112/?lang=cy). Daw'r paragraffau canlynol o'r adroddiad.

15 'Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent yn gwneud yn dda er gwaetha'r heriau ariannol sylweddol y mae'r cyngor yn eu hwynebu. Mae wedi parhau i fwrw ymlaen â'r broses o weithredu rhaglen o newid ar draws y ddwy adran gwasanaethau ac mae'n gwneud ymdrech arbennig i symleiddio prosesau a strwythurau. Mae gan y Cyngor hanes cryf o weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, partneriaid ym maes iechyd a'r trydydd sector.

16 O ran gwasanaethau i oedolion mae'r cyngor wedi llwyddo i fwrw ymlaen â rhaglen o foderneiddio. Gan gydnabod nad yw gwasanaethau traddodiadol bellach yn diwallu anghenion na bodoli dyheadau pobl hŷn, mae'r rhan fwyaf o gartrefi preswyl a arferai gael eu cynnal gan yr awdurdod lleol wedi cael eu cau. Mae mwy o annibyniaeth i bobl hŷn yn cael ei hybu drwy wasanaethau arloesol megis datblygiadau 'gofal ychwanegol' seiliedig mewn tai. Byddai rhai meysydd yn cael budd o ddatblygiad a sylw pellach, yn arbennig gwasanaethau i bobl hŷn ag anghenion iechyd meddwl cymhleth. Mae gwaith ar y cyd â phartneriaid o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi bod yn allweddol yn hyn o beth.'

17 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio tuag at integreiddio ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. O ystyried y cyfyngiadau ariannol ar gyllidebau cynghorau cydnabuwyd bod integreiddio

yn cynnig manteision gwirioneddol i wella ansawdd ac ystod y gwasanaethau a gynigir i bobl sy'n agored i niwed ond hefyd i helpu i greu gwasanaethau mwy cynaliadwy. Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r broses integreiddio wedi cael ei hatal dros dro tra bod y ddau bartner yn adolygu cynnydd yn ffurfiol. O ganlyniad i hyn mae'r ddau bartner wedi mynd ati i baratoi achosion busnes manwl er mwyn penderfynu ar y lefel o integreiddio y dylid gweithio tuag ati. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ac erys yn ansicr a fydd y broses o integreiddio gwasanaethau cymdeithasol yn parhau ai peidio. Waeth beth fo'r penderfyniad hwnnw, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo roi mwy o arian i ofal cymdeithasol ac mae'n bwriadu sicrhau £1 filiwn o wasanaethau eraill er mwyn cynyddu'r gyllideb sylfaenol yn 2013-14 a thu hwnt.

## Erys gwasanaethau addysg yn anfoddhaol o hyd

18 Rydym yn gweithio'n agos gydag Estyn, (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn arolygu pa mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau. Mae gan Estyn raglen reolaidd o arolygiadau o wasanaethau cyn ysgol megis meithrinfeydd, ysgolion, colegau a gwasanaethau ieuenctid. Rydym yn gweithio gydag Estyn i asesu pa mor dda y mae'r Cyngor yn cefnogi'r holl wasanaethau hyn i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu.

19 Ym mis Mai 2011 arolygodd Estyn wasanaeth addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc a daeth i'r casgliad fod ei berfformiad a'i ragolygon ar gyfer gwella yn anfoddhaol. Ymatebodd y Gweinidog Addysg i'r casgliadau hyn drwy ddileu rheolaeth uniongyrchol y Cyngor dros wasanaethau addysg a phenodi pedwar comisiynydd dros addysg y daeth dau ohonynt yn aelodau o'r cabinet.

20 Ym mis Ionawr 2013 ail arolygodd Estyn wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a chaiff ei chanfyddiadau eu cyhoeddi cyn hir. Cyn yr arolygiad ailbenododd y Gweinidog Addysg un o'r Comisiynwyr yn llawn amser i barhau i arfer cyfrifoldebau gweithredol am addysg ym Mlaenau Gwent.

## Mae'r dirwasgiad economaidd presennol yn cyfrannu at ddiweithdra cynyddol ac mae nifer y busnesau preifat newydd ym Mlaenau Gwent wedi lleihau er gwaethaf buddsoddiad sylweddol gan y Cyngor. O ran cystadleurwydd, Blaenau Gwent yw'r ardal leiaf atyniadol o ran mewnfuddsoddi yn y DU

21 Mae cryn amddifadedd cymdeithasol ac economaidd ym Mlaenau Gwent ac mae'n debygol o brofi effeithiau'r dirwasgiad economaidd yn ddwysach nag ardaloedd mwy cefnog. Felly mae diweithdra cynyddol yn weithgarwch priodol a phwysig y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arno yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Un o amcanion gwella'r Cyngor yw cynyddu a chynnal cyflogaeth ym Mlaenau Gwent drwy fuddsoddi a chefnogi busnesau newydd

a busnesau sy'n bodoli eisoes. Yn 2011-12 darparodd y Cyngor nifer o grantiau a chyflawnodd gyfres o raglenni ariannu wedi'u targedu at helpu busnesau i ehangu a Glynebwy oedd un o'r saith ardal yng Nghymru a ddynodwyd yn Ardal Fenter[1] hefyd gan Lywodraeth Cymru i ddenu mewnfuddsoddiad. Roedd y buddsoddiad hwn yn cynnwys arian o dan y rhaglen 'kick start' i greu busnesau newydd yn y sector preifat ac arian ar gyfer mentrau cymdeithasol. Ym mis Hydref 2011 nododd y Cyngor ei fod wedi buddsoddi £450,700 a arweiniodd at greu 26.5 o swyddi a thri busnes newydd. Erbyn mis Mai 2012 roedd y buddsoddiad wedi cynyddu i £1.2 miliwn, a helpodd i greu 396 o swyddi a 41 o fusnesau newydd.

22 Rydym yn cydnabod bod y wasgfa gredyd fyd-eang gynyddol a'r dirwasgiad economaidd yn debygol o effeithio ar allu cynghorau i greu a chynnal swyddi gan fod perfformiad yn erbyn data cymharol cenedlaethol eraill yn dangos y canlynol:

- Bu lleihad yn nifer y bobl mewn cyflogaeth ym Mlaenau Gwent. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol[2] (NOMIS) yn cofnodi i nifer y bobl mewn cyflogaeth leihau rhwng 2010-11 a 2011-12 o 26,700 i 25,700, sef gostyngiad o 3.7 y cant. Blaenau Gwent sydd â'r gyfradd gyflogaeth isaf o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru, gan gofnodi mai 58.5 y cant o'i boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth yn 2011-12. Mae hyn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 66.6 y cant. Cynyddodd y gyfran o'r boblogaeth o oedran gweithio a oedd yn chwilio am waith o 12.9 y cant i 15.5 y cant rhwng 2010-11 a 2011-12.

- Bu cynnydd yn nifer y trigolion ym Mlaenau Gwent sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra. Cynyddodd y nifer sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra o 2,995 ym mis Ebrill 2011 i 3,442 ym mis Ebrill 2012. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i gynnydd o 1.1 y cant o 6.8 y cant yn 2010-11 i 7.9 y cant yn 2011-12. Gan Flaenau Gwent mae'r gyfran uchaf o hawlwyr yng Nghymru, bron dwbl cyfartaledd Cymru sef 4 y cant.

23 O ran rhoi cymorth i fusnesau newydd, unwaith eto mae'r data cenedlaethol yn awgrymu bod llai o welliant o ran creu busnesau newydd yn 2011-12. Mae'r Cyngor yn nodi ei fod wedi helpu 41 o fusnesau newydd erbyn mis Mai 2012. Fodd bynnag, mae data cenedlaethol cymharol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod 1,215 o fusnesau gweithredol ym Mlaenau Gwent yn 2011, sef gostyngiad o 35 o gymharu â 1,250 yn 2010.

24 Fel mesur o lwyddiant, mae Mynegai Cystadleurwydd y DU[3] yn faromedr da ar gyfer barnu pa mor dda y mae cynghorau, rhanbarthau a gwledydd yn y DU yn perfformio o ran denu buddsoddiad newydd o'r sector preifat yn ogystal â helpu

1 Mae Ardaloedd Menter yn cynnig cymelliannau penodol er mwyn denu busnes newydd i leoliadau dethol yng Nghymru ac fe'u datganwyd yn ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi o'r tu allan.

2 Cronfa ddata o ystadegau'r farchnad lafur ar y we yw NOMIS

3 Mae Mynegai Cystadleurwydd y DU yn cynnig meincnod o gystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd lleol y DU ac mae wedi cael ei gynllunio i fod yn fesur integredig o gystadleurwydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad a chynaliadwyedd busnesau a lles economaidd unigolion. Felly mae'r Mynegai yn ystyried gallu economi leol i ddenu a chynnal busnesau preifat gyda chyfrannau sefydlog neu gyfrannau sy'n codi ar y farchnad mewn gweithgarwch, tra'n cynnal safonau byw sefydlog neu gynyddol i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddo.

busnesau sy'n bodoli eisoes i ffynnu. Gan mai bob dwy flynedd y caiff y Mynegai ei gyhoeddi, nid oes data ar gael i wneud asesiad ar gyfer 2011-12. Yn 2010 roedd Blaenau Gwent yn safle 379 o blith 379 o gynghorau, sef y lle lleiaf cystadleuol i fusnesau newydd yn y DU. Yn 2008 roedd y Cyngor hefyd yn safle 379 o blith 379. Mewn cymhariaeth, Cymru yw'r rhanbarth lleiaf cystadleuol yn y DU.

## Nid yw'n amlwg a yw buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn gwella cyflwr y ffyrdd ym Mlaenau Gwent. Mae diogelwch fel y'i mesurir yn ôl damweiniau ar y ffyrdd wedi gwella'n sylweddol ond nid yw'r Cyngor wedi annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus

25 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyflwr y ffyrdd yn ffactor sy'n llywio canfyddiadau pobl o'r ardal a pherfformiad y Cyngor a gall hefyd effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd a datblygu economaidd. Gall cyflwr y ffyrdd gael effaith sylweddol ar gyllid y Cyngor os bydd cydbwysedd amhriodol rhwng gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd a gwaith cynnal a chadw ymatebol yn arwain at ddirywiad cyffredinol graddol yng nghyflwr y rhwydwaith. Ar gyfer 2011-12 mae'r Cyngor wedi parhau i flaenoriaethu'r canlynol: gwelliannau i'r briffordd gan ganolbwyntio ar wella cyflwr y ffyrdd; lleihau nifer y damweiniau traffig ar y ffordd a gwella addysg diogelwch ar y ffordd; ac annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

26 Yn 2010-11 benthycodd y Cyngor £5.8 miliwn drwy drefniant benthyca darbodus i'w fuddsoddi mewn gwella'r seilwaith ffyrdd ledled Blaenau Gwent yn y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14. Ar gyfer 2011-12 nid yw'r Cyngor wedi nodi yn ei 'Adroddiad ar Berfformiad' faint o arian a wariwyd hyd yma nac ychwaith y gwelliant i'r rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw, yn bennaf am na ddechreuodd gwaith ar y safle tan y pedwerydd chwarter yn ystod y flwyddyn ac mae wedi ymestyn i 2012-13. O ganlyniad, mae'n anodd mesur effaith y buddsoddiad hwn yn 2011-12.

27 Ar gyfer 2011-12 newidiodd y data cymharol cenedlaethol ar ffyrdd mewn cyflwr gwael a dim ond un mesur cyfansawdd a ddefnyddir bellach. Ar gyfer 2011/12 cafodd tua 11.6 y cant o ffyrdd Blaenau Gwent eu dosbarthu'n ffyrdd mewn cyflwr gwael. Golygai hyn fod Blaenau Gwent yn safle 16 o ran y seilwaith ffyrdd gwaethaf o blith ardaloedd yng Nghymru, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 11 y cant.

28 Mewn meysydd eraill, cymysg yw'r llwyddiant o ran cyflawni camau gweithredu a pherfformiad. Mae'r Cyngor wedi parhau i gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth plant o ddiogelwch ar y ffordd a rhoi hyfforddiant sgiliau beicio, a mynychodd 210 a 305 o bobl ifanc y dosbarthiadau hyn yn y drefn honno yn 2011-12. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn mesur perfformiad drwy ganolbwyntio ar faint o bobl ifanc sy'n mynychu dosbarthiadau, ac nid ar effaith y gwaith hwn. Eto i gyd, rhwng 2008 a 2011 mae data cenedlaethol yn nodi bod nifer y damweiniau ar y ffordd ym Mlaenau Gwent

wedi lleihau o 240 i 120. O ran beicwyr, cynyddodd y gyfran yn ystod yr un cyfnod gan gynyddu o 1.7 y cant i 2.5 y cant. O ran cymharu perfformiad, Blaenau Gwent sydd â'r nifer isaf o ddamweiniau ar y ffordd yn 2011. Yn 2008 roedd yn y pumed safle.

29 O ran annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ni wnaeth y Cyngor unrhyw waith yn 2011-12 ac felly nid yw wedi gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer ei ddinasyddion. Gan nad yw'r Cyngor wedi mabwysiadau camau gweithredu clir ynglŷn â sut y bydd yn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus na phennu mesurau i nodi pa mor dda y mae'n gwneud, mae effaith ei weithgarwch a faint o fudd ystyrlon y mae dinasyddion yn ei gael yn anhysbys. Ychydig iawn o fesurau cenedlaethol sydd ar gael i gymharu pa mor dda yw perfformiad cynghorau. Un mesur o'r fath yw cyfran y trigolion dros 60 sydd â thocyn teithio ar y bws am ddim. Ers 2009-10 mae cyfran trigolion Blaenau Gwent dros 60 oed sydd â thocyn teithio ar y bws am ddim wedi gostwng o 93.2 y cant i 84.9 y cant yn 2011-12.

## Nid yw gweithgarwch adfywio canol trefi yn arwain at welliannau sylweddol i ddinasyddion

30 Mae adfywio yn chwarae rhan allweddol o ran cynllunio a sicrhau economi ffyniannus a chynaliadwy. Mae polisïau adfywio yn cwmpasu nifer o weithgareddau integredig gyda'r nod o wrthdroi dirywiad economaidd, cymdeithasol a ffisegol er mwyn sicrhau gwelliannau parhaol i gymunedau a dinasyddion. Un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor yw adfywio canol trefi er mwyn gwella twristiaeth ac annog busnesau.

31 Cyfyngedig yw'r data cymharol cenedlaethol sydd ar gael i farnu perfformiad gweithgarwch adfywio ac mae'n rhaid canfod gwelliant yn bennaf drwy ddata perfformiad lleol y Cyngor. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau £25 miliwn ar gyfer dwy raglen adfywio canol tref yng Nglynebwy ac Abertyleri, sy'n cael eu rhoi ar waith rhwng 2010 a 2015. Ar gyfer 2011/12 mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ei weithgarwch adfywio canol tref ar sawl maes. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: darparu grantiau busnes; cyflawni cynlluniau adfywio canol trefi; a digwyddiadau canol trefi i hyrwyddo Blaenau Gwent ac annog twristiaeth.

32 Mae perfformiad yn erbyn y mesurau hyn yn awgrymu bod rhywfaint o welliant cyn 2011-12, gyda'r Cyngor yn bwriadu cyflawni llawer o'r gweithgarwch yn 2012-13. Canfuwyd bod gweithgarwch nifer o brosiectau ar ei hôl hi o ran eu targedau, er enghraifft: Rhaglen Adfywio Canol Tref Glynebwy; gwelliannau i'r stryd ar hyd Heol yr Eglwys yn Abertyleri; a digwyddiadau ymgynghori ar y Stryd Fawr/ Stryd Somerset.

33 Gwnaethom hefyd amodi'r mesur sy'n ymwneud â gostyngiad yng nghanran y safleoedd busnes sy'n wag o fewn ffiniau canol y dref, lle y nododd y Cyngor fod perfformiad wedi gwella 0.87 y cant er iddo ostwng 0.2 y cant mewn gwirionedd. Golyga hyn fod nifer y safleoedd gwag yng nghanol y dref wedi cynyddu yn 2011-12 er gwaethaf buddsoddiad a chymorth y Cyngor. Dengys dadansoddiad o ddata perfformiad lleol ar gyfraddau safleoedd gwag o fewn trefi yn 2011-12 fod y sefyllfa yn Abertyleri, Brynmawr a Glynebwy, lle mae nifer yr unedau gwag wedi lleihau, yn gwella. I'r gwrthwyneb, bu cynnydd yn nifer yr unedau gwag yn Nhredegar a'r Blaenau yn 2011-12.

34 Rydym yn cydnabod, oherwydd ei natur, y gall gymryd amser hir i sicrhau adfywiad ac nad yw bob amser yn bosibl dangos buddiannau gweithgarwch ar unwaith. Felly, mae'n bwysig bod y Cyngor yn rhoi mesurau canlyniadau priodol ar waith sy'n ei alluogi i asesu effaith ei waith yn yr hirdymor.

## Mae perfformiad o ran creu amgylchedd glân, diogel a chynaliadwy a gwella prosesau rheoli gwastraff a gwasanaethau ailgylchu yn gwella ond ar sail rhai dangosyddion mae'r Cyngor dipyn yn is na chyfartaledd Cymru

35 Mae gan y Cyngor ddwy flaenoriaeth o ran gwella amgylchedd Blaenau Gwent, sef: gwrando ar ddinasyddion a'u hannog i hyrwyddo amgylchedd glân a dymunol i'w fwynhau ac ymfalchïo ynddo; a chreu diwylliant cymunedol lle mae ailgylchu a lleihau gwastraff yn dod yn ymddygiad arferol i ddinasyddion.

36 Canfu ein hadolygiad o wasanaethau fod y Cyngor wedi parhau i ddatblygu'r ffordd y mae'n gwella glendid y fwrdeistref sirol. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno patrymau gwaith newydd gan greu gweithlu aml-sgiliau ac mae'n gweithio gydag asiantaethau allanol i fynd i'r afael â sbwriel a baw cŵn. Mae'r Cyngor yn nodi bod dros 1,100 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi yn ystod 2011-12 ar gyfer troseddau a oedd yn ymwneud â sbwriel a baw cŵn. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn cofnodi'r canlynol: faint o'r hysbysiadau hyn a arweiniodd at gamau gweithredu pellach; faint o incwm a godwyd; nac ychwaith a yw'r defnydd o ddirwyon wedi arwain at lai o droseddau sy'n ymwneud â sbwriel a baw cŵn.

37 Llwyddodd y Cyngor i erlyn 10 troseddwr tipio anghyfreithlon yn 2011-12 o ganlyniad i ddefnyddio cyfarpar teledu cylch cyfyng cudd mewn mannau 'poblogaidd' ar gyfer tipio anghyfreithlon. Mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd wedi lleihau'n sylweddol o 381 yn 2008-09 i 177 yn 2011-12 a pherfformiad Blaenau Gwent oedd y gorau ymhlith cynghorau Cymru yn 2011-12.

38 Llwyddodd y Cyngor i weithredu gwasanaeth casglu gwastraff gardd bob pythefnos i'w holl drigolion ac mae bellach yn darparu gwasanaeth 'ar gais' ar gyfer eitemau trydanol a dodrefn cartref mawr. Datblygir hyn mewn partneriaeth ag elusennau lleol er mwyn cynnig mannau ar gyfer ailwerthu'r dodrefn hyn.

39 Mae nifer y safleoedd ailgylchu yn y fwrdeistref sirol wedi cynyddu hefyd o chwech i 11 o safleoedd. Er bod y gyfradd ailgylchu wedi gwella o 35.2 y cant yn 2010-11 i 42.3 y cant yn 2011-12, erys perfformiad y Cyngor yn un o'r gwaethaf yng Nghymru. Roedd yn safle 20 o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru yn 2011-12 ac erys ymhell islaw cyfartaledd Cymru sef 48.5 y cant. O ran gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, bu gwelliant sylweddol gyda'r ganran yn gostwng o 64.5 y cant yn 2010-11 i 46.3 y cant yn 2011-12. Roedd y ffigur hwn yn agos i gyfartaledd Cymru ac o ganlyniad mae'r Cyngor yn safle 12 ymhlith y 22 o gynghorau yng Nghymru.

## Mae'r ffordd y prosesir ceisiadau Budd-dal Tai yn gwella

40 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu'r budd-dal tai yn cefnogi gwelliant. Nid yw amseroedd prosesu ar gyfer hawliadau newydd wedi newid dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sydd ychydig yn hwy na chyfartaledd Cymru. Ymdrinnir â hysbysiadau newid mewn amgylchiadau yn gynt na chyfartaledd Cymru ac mae wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol. Erbyn hyn penderfynir ar fwy o hawliadau o fewn 14 diwrnod nag yn y flwyddyn flaenorol ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae nifer yr hawliadau sydd i'w penderfynu am fwy na 50 diwrnod wedi gwella ond erys yn uwch na chyfartaledd Cymru.

41 Gostyngodd canran yr hawliadau a gyfrifwyd yn gywir ychydig ers y flwyddyn flaenorol ac mae'n is na chyfartaledd Cymru ond mae'r gwasanaeth wedi cydnabod bod cywirdeb yn bwysig ac mae bellach yn atgyfnerthu trefniadau mewnol er mwyn sicrhau ansawdd. Cafodd canran uwch o ordaliadau eu nodi a'u hadennill nag yn y flwyddyn flaenorol. Cynhaliwyd mwy o ymchwiliadau atal twyll a sicrhawyd nifer uwch o gosbau llwyddiannus. Gwnaed llai o geisiadau i ailystyried neu ddiwygio hawliad ac ymdrinnir â cheisiadau yn gyflym. Mae nifer yr apeliadau wedi cynyddu, ond ymdrinnir â hwy yn gynt na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Mae'r Cyngor yn gwella ei wasanaethau Cymraeg ac mae mwy o waith yn yr arfaeth ar gyfer 2013-14

42 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn

ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen. Mae'r Comisiynydd yn crynhoi ei barn ar wasanaethau Cymraeg Blaenau Gwent fel a ganlyn:

43 'Mae'r Cyngor wedi adnabod meysydd ar gyfer gwella parhaus. Ar ôl gweithredu i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar ei wefan gorfforaethol, mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor mewnol a system rheoli cynnwys i sicrhau fod y gwasanaeth yn parhau i wella. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth Gymraeg wrth ymwneud â chyfryngau cymdeithasol. Y flaenoriaeth i'r Cyngor ar gyfer y cyfnod nesaf fydd gwella sgiliau iaith Gymraeg staff drwy weithredu ei Strategaeth Sgiliau Iaith.'

## Nid oes gan y Cyngor y gallu corfforaethol na'r berchenogaeth sydd eu hangen i herio ac ysgogi gwelliant yn gyson yng ngwasanaethau'r Cyngor. Mae gwendidau hirsefydlog o ran y ffordd y caiff y fframwaith corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad a gwella ei gymhwyso, ynghyd ag asesiad anghyson o gynnydd, yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ei drefniadau hunanwerthuso

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009. Fodd bynnag, gallai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru

44 Yn ein hail *Lythyr Asesu Gwella* i'r Cyngor (mis Rhagfyr 2012), nodwyd bod y Cyngor wedi cyhoeddi ei *Adroddiad Hunanwerthuso ar Berfformiad Blynyddol* (Adroddiad ar Berfformiad) ym mis Hydref 2012. Roedd hyn yn cynnwys asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 a hefyd ei gynlluniau ar gyfer gwella ei wasanaethau yn 2012-13. Nododd ein hadolygiad y gallai gydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy gynnwys y casgliadau diweddar gan gyrff rheoleiddio ac arolygu eraill (Estyn ac AGGCC); gwybodaeth am y manteision a sicrhawyd drwy gydweithredu hyd yma; darlun mwy cytbwys o'i berfformiad ei hun; a gwneud yr adroddiad yn fwy hygyrch i ddinasyddion ar adeg cyhoeddi.

### Mae gan y Cyngor fframwaith ar gyfer rheoli a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad, ond oherwydd anghysondebau yn y ffordd y caiff ei gymhwyso a diffyg perchenogaeth a gallu corfforaethol i herio ac ysgogi gwelliant, nid yw'r fframwaith bob amser yn gynhwysfawr, yn gadarn nac yn effeithiol

45 Canfuwyd y caiff y gwaith o reoli perfformiad ei gydgysylltu a'i oruchwylio ar draws y Cyngor gan yr Uned Fusnes Strategol. Mae'r Uned Fusnes Strategol yn cefnogi gwasanaethau ond nid yw'n ysgogi perfformiad ac nid yw'n rheoli gwasanaethau'r Cyngor nac yn rhoi her fewnol. Y gwasanaethau unigol sy'n gyfrifol am hynny fel 'perchenogion' gwelliant ac mae gwasanaethau yn atebol am gyflwyno adroddiadau ar eu perfformiad eu hunain yn erbyn Amcanion Gwella. Rydym yn pryderu nad oes gan y Cyngor y gallu corfforaethol i wneud y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau gwelliant ac mae angen iddo ymdrin â hyn.

46 Yn ein llythyr ym mis Rhagfyr 2012 nodwyd bod rhai o wasanaethau'r Cyngor wedi sefydlu systemau effeithiol i reoli eu perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno a gwelsom dystiolaeth y caiff dulliau rheoli perfformiad eu defnyddio i werthuso gweithgarwch ac ysgogi gwelliant. Er enghraifft, mae gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol ddulliau sefydledig a strwythuredig o reoli perfformiad gyda llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom hefyd yr ymdrinnir â gwendidau a nodwyd mewn meysydd i'w gwella ym

maes Addysg bellach. Mae'n amlwg bod rheoli perfformiad yn cael ei ystyried yn rhywbeth pwysig ac angenrheidiol ym maes Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i defnyddir i helpu i werthuso a chefnogi rheolwyr i wella perfformiad a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

47 Fodd bynnag, erys y gwendidau a nodwyd gennym o'r blaen mewn gwasanaethau eraill - Adfywio a'r Priffyrdd er enghraifft - ac nid oes fawr o dystiolaeth o newid na gwella o ran y ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn gwerthuso eu perfformiad. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi sefydlu cynlluniau gweithredu manwl i helpu i gyflawni pob Amcan Gwella ond mae'r graddau y mae'r Amcanion Gwella yn cael lle amlwg mewn cynlluniau gwasanaeth neu fusnes ac mewn adroddiadau yn amrywio. Nid oes gan Adfywio na'r adran Briffyrdd unrhyw gynlluniau ar gyfer 2011-12 ac roeddent ond yn defnyddio Ffynnon[4] i gofnodi eu perfformiad yn erbyn dangosyddion. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i gynllunio, ysgogi a rheoli gwelliant, a chysylltu â gwasanaethau neu bartneriaid eraill y Cyngor a allai gael effaith gadarnhaol ar y broses o gyflawni'r Amcanion Gwella.

48 Canfuwyd hefyd nad yw adroddiadau gwasanaeth i'r pwyllgor craffu yn nodi perfformiad yn gyson yn erbyn yr un gyfres o fesurau. Mae'r mesurau hyn yn aml yn newid o un chwarter i'r llall, ac o ganlyniad i hynny mae'n anodd barnu pa mor dda neu pa mor wael y mae'r gwasanaeth yn ei wneud. Mae adroddiadau hefyd yn methu ag adolygu cynnydd yn erbyn nifer o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt o dan bob Amcan Gwella, felly nid oes modd mesur a yw'r Cyngor yn cyflawni'r hyn y dywedodd y byddai'n ei gyflawni neu a yw'n canolbwyntio ar y pethau iawn i wella perfformiad gwasanaeth. Gan fod cwmpas ac ansawdd perfformiad ac adroddiadau yn 2011-12 yn dal i amrywio'n sylweddol rhwng adrannau ac erys ansawdd gwybodaeth yn anghyson ac nid yw bob amser yn gadarn, ni all y Cyngor reoli ei berfformiad na chyflwyno adroddiadau arno'n ddibynadwy er mwyn cefnogi gwelliant.

49 Fodd bynnag, mae AGGCC yn nodi yn ei hadolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol yn 2011-12 fod adroddiad y Cyfarwyddwr[5] yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o berfformiad yr awdurdod. Noda AGGCC fod gwerthusiad y Cyngor o'i wasanaethau gofal cymdeithasol yn gytbwys o ran cydnabod y cyflawniadau yn ystod y flwyddyn tra'n cydnabod heriau a nodi meysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Mae'r gwahaniaeth yng nghasgliadau rheoleiddwyr yn dangos yn glir fod anghysondeb o ran pa mor effeithiol y mae gwasanaethau unigol y cyngor yn rheoli ac yn gwerthuso eu perfformiad.

4 Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a'u partneriaid.

5 Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol cyngor gan AGGCC sy'n cynnwys asesiad o hunanwerthusiad Cyngor o'i berfformiad (y cyfeirir ato'n aml fel 'Adroddiad y Cyfarwyddwr'). Mae AGGCC yn rhoi gwerthusiad cyffredinol o berfformiad ac yn nodi meysydd cynnydd a meysydd i'w datblygu.

50 Mae'r Cyngor wedi ymateb i'n sylwadau ar ei allu corfforaethol i gefnogi gwelliant ac mae'n cyflwyno prosesau newydd i atgyfnerthu dulliau rheoli perfformiad a herio yn ystod y cam craffu. Mae hyn yn cynnwys:

- Penodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn swyddog arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol dros reoli perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor ac yn gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau newydd.

- Creu grŵp Rhwydwaith Gwella Corfforaethol mewnol gydag aelodau o bob Cyfarwyddiaeth a fydd yn atebol am ysgogi gwelliannau mewn rheoli perfformiad.

- Datblygu dulliau newydd o fynd i'r afael â chanfyddiadau rheoleiddwyr allanol a chyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol newydd a threfniadau hunanwerthuso i bob un o wasanaethau'r Cyngor.

- Cyflwyno fframwaith hunanasesu newydd ar gyfer gwasanaethau a ddatblygwyd gyda chymorth Uned Ddata Llywodraeth Leol (Cymru) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wella'r ffordd y mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn rheoli ac yn herio perfformiad.

51 Byddwn yn adolygu'r dulliau gweithredu newydd hyn ac yn cyflwyno adroddiad ar eu heffeithiolrwydd yn ein gwaith yn y dyfodol.

## Nid yw hunanwerthusiad y Cyngor wedi'i strwythuro'n dda ac nid yw'n hawdd ei ddarllen ac oherwydd gwendidau o ran ystod ac ansawdd ei fesurau perfformiad nid oes modd barnu pa gynnydd a wneir bob amser ac a yw'n cael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion

52 Mae hunanwerthuso effeithiol yn dibynnu ar greu diwylliant sy'n herio ac yn gwerthuso ei berfformiad yn wrthrychol fel mater o drefn, sy'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio gwybodaeth yn dda ac sydd â safonau da o ran ansawdd data a chyflwyno adroddiadau ac sydd â ffocws ar hynny er mwyn ei gwneud yn bosibl i roi barn gytbwys ar berfformiad.

53 Yn ein hail *Llythyr Asesu Gwella* (mis Rhagfyr 2012) tynnwyd sylw at y ffaith bod trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor yn wan ac oherwydd ansawdd gwael ei fesurau perfformiad nid oes modd barnu bob amser pa mor dda yw perfformiad gwasanaethau. Lluniodd y Cyngor adroddiad gwerthuso blynyddol o'i berfformiad o ran cyflawni ei Amcanion Gwella (Adroddiad ar Berfformiad) a oedd wedi'i strwythuro'n wael, yn ddryslyd ac yn anodd ei ddarllen. Canfuwyd bod y data ar berfformiad yn nodi gweithgarwch yn erbyn mis Hydref 2011 a mis Mai 2012, yn ogystal â'r blynyddoedd ariannol 2010-11 a 2011-12. Mae hyn yn rhoi darlun dryslyd o weithgarwch gan ei fod yn torri ar draws blynyddoedd ariannol ac nid yw'r naratif yn rhoi'r rhesymeg na'r stori y tu ôl i'r perfformiad yn glir i'r darllenydd.

54 Gwnaeth y Cyngor gynnwys rhywfaint o wybodaeth dda am wariant refeniw a chyfalaf a gweithgarwch cydweithredu ac mae wedi parhau i gyflwyno ei fframwaith adrodd ar berfformiad atebolrwydd[6] yn seiliedig ar ganlyniadau. Fodd bynnag, nid yw system y Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad ei wasanaethau bob amser yn glir, mae wedi'i strwythuro'n wael ac o ganlyniad nid yw'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad effeithiol ym mhob maes gwasanaeth. Mae'r ffordd anghyson hon o fonitro a gwerthuso gwasanaethau yn wendid hirsefydledig.

55 Nodwyd hefyd anghysondeb o ran pa mor dda y mae atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau wedi ymsefydlu yn y Cyngor. Mewn rhai meysydd, mae ystod ac ansawdd y mesurau perfformiad a ddefnyddir yn ei gwneud yn bosibl i werthuso cynnydd. Er enghraifft, mae'r Amcan Gwella sy'n ymwneud â gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol lle mae tystiolaeth ac asesiad y Cyngor yn dangos yn glir i gynnydd gael ei wneud drwy gymryd camau gweithredu ac mae'r mesurau a ddefnyddiwyd i asesu cynnydd yn glir ac y n briodol.

56 Fodd bynnag, mewn meysydd eraill, nid yw'r sylfaen dystiolaeth na'r broses werthuso mor gadarn. Er enghraifft, ceir Amcanion Gwella ynglŷn â defnyddio technoleg newydd i gynnig dewis ehangach i gwsmeriaid o ran sut y gallant gael gafael ar wasanaethau'r Cyngor a gwella cyflwr a diogelwch y priffyrdd. Ar gyfer yr Amcanion hyn canfuwyd bod y Cyngor yn gwerthuso ei hun yn erbyn ystod wael o wybodaeth am berfformiad nad yw'n ei gwneud yn bosibl i ddangos effaith gadarnhaol ei waith. Gwendidau hirsefydlog yw'r rhain, yr ydym wedi gwneud sylwadau arnynt o'r blaen ond nid yw rhai o'r rhain (Priffyrdd) wedi cael eu hadolygu na'u gwella. Mae'r diffyg cynnydd hwn yn golygu bod y Cyngor yn parhau i fod mewn sefyllfa lle na all werthuso pa mor dda y mae'n gwneud ac nid yw'n dysgu o heriau allanol i'w berfformiad.

57 Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn amlinellu mewn gwahanol fannau berfformiad y Cyngor yn erbyn mesurau amrywiol. Mae'r Cyngor yn nodi ei berfformiad gwirioneddol ar gyfer y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf (2008-09 i 2011-12) yn ogystal â chymharu perfformiad â chyfartaledd Cymru. Gellid gwella hyn ymhellach drwy gynnwys safle'r Cyngor ymhlith y 22 o gynghorau yng Nghymru, newidiadau mewn safle dros amser a'i berfformiad o'i gymharu â chynghorau eraill er mwyn barnu'n fwy effeithiol i ba raddau y mae'n gwella.

58 Mae'r Cyngor wedi cynnwys cymhariaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer rhai mesurau perfformiad o dan ei Amcanion Gwella, ond mae hyn yn gul ei ffocws ac nid yw'n rhoi safbwynt cytbwys ar ba mor dda y mae'n perfformio. Hefyd, nid oes sylwadau yn esbonio'r hyn y mae'r dangosyddion yn ei fonitro na'r hyn y maent yn ei golygu ac nid oes crynodeb yn nodi a yw perfformiad yn gyffredinol yn gwella, yn gwaethygu neu'n aros yn ddigyfnewid.

6 Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn canolbwyntio ar farnu effaith a chanlyniadau a'r gwahaniaeth y gall gwasanaethau ei wneud i 'ansawdd bywyd' pobl ac mae'n ffordd o gynllunio ac asesu perfformiad gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau y bwriedir i'r gwasanaethau eu cyflawni.

O ran rhai mesurau mewn rhai blynyddoedd ni chofnodir data ac nid esbonnir pam y hepgorwyd y data hyn. Mae hyn yn rhoi darlun anghyflawn o berfformiad.

59 Nid yw hunanwerthusiad y Cyngor ar gyfer 2011-12 yn asesu ei berfformiad yn erbyn unrhyw dargedau, hyd yn oed lle maent yn bodoli. Er enghraifft, mae gwasanaethau cymdeithasol yn pennu targedau ar gyfer mesurau perfformiad allweddol a gaiff eu monitro bob chwarter ond nid yw'r wybodaeth hon na'r targedau hyn wedi'u cynnwys yn hunanwerthusiad y Cyngor. Am fod y Cyngor wedi hepgor y wybodaeth hon ni all nodi pa mor effeithiol ydyw o ran cyflawni ei dargedau ac ni all dinasyddion weld a yw'r Cyngor yn cyflawni'r gwelliannau a fwriadwyd.

60 Yn olaf, nid yw'r adroddiad hunanwerthuso yn cynnwys datganiad gwerthusol cyffredinol ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella, gan nodi'n glir a yw'r Cyngor yn credu iddo fod yn llwyddiannus ai peidio. Mae'r diffyg datganiadau gwerthusol yn tanseilio trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor ac mae'n rhwystro'r Cyngor a'r cyhoedd rhag deall a yw'r Amcanion Gwella wedi cael eu cyflawni. Mae hyn yn gwahanu atebolrwydd y Cyngor i'w ddinasyddion.

## Nid yw dibynadwyedd data i reoli gwybodaeth am berfformiad mewn rhai gwasanaethau yn gyson nac yn gadarn eto

61 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Mae gan y Cyngor systemau sefydledig i gyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Mae'r mesurau a ddewiswyd gennym i'w harchwilio yn gymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn fesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei Amcanion Gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

62 Canfuwyd, o'r 27 o fesurau a archwiliwyd, fod yn rhaid amodi pedwar dangosydd lleol a bod yn rhaid cywiro chwech oherwydd gwallau. Mae hyn yn gyson â'n harchwiliad o ddata ar berfformiad yn 2010-11 pan ganfuwyd bod wyth o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn cynnwys anghywirdebau sylweddol a bod angen cywiro 11 oherwydd gwallau. Nid oes gan y Cyngor systemau effeithiol o hyd i baratoi data cywir a dibynadwy mewn rhai meysydd gwasanaeth.

63 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynglŷn ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Mae'r Cyngor yn annhebygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13 oni fydd yn cyflymu'r broses newid ac yn rhoi ei gynlluniau ar waith er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy ac effaith. Byddwn yn gwerthuso cynnydd fel rhan o'n rhaglen waith yn 2013-14

### Mae'r Cyngor yn gweithredu'n araf i fynd i'r afael â'r gwendidau diwylliannol hirsefydlog o ran perfformiad ac arweinyddiaeth, ond mae cyflymder a maint y newid sydd ei angen dros y chwe mis nesaf yn golygu ei bod yn ansicr a fydd y Cyngor yn sicrhau gwelliannau cynaliadwy a chyson i ddinasyddion Blaenau Gwent

64 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi wynebu heriau sylweddol wrth wella ei wasanaethau. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Asesiad Corfforaethol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Daeth yr Asesiad Corfforaethol i'r casgliad fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i gyflawni gwelliannau allweddol ond, oni bai bod y Cyngor yn mynd i'r afael ag anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y caiff ei redeg, ei bod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn cyflawni unrhyw welliant sylweddol cynaliadwy. Daeth yr asesiad cyffredinol o drefniadau'r Cyngor i'r casgliad ei bod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol a gwnaed argymhelliad statudol. Ymatebodd y Cyngor i argymhelliad statudol yr Archwilydd Cyffredinol a chyflwynodd gynllun gweithredu ym mis Mawrth 2012 yn nodi'r rhaglen newid arfaethedig i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn.

65 Yn 2012-13 rydym wedi edrych ar drefniadau a systemau mewnol y Cyngor, sy'n hanfodol i'w helpu i wella. Mae'r Cyngor wedi parhau i fireinio ei gynllun gweithredu fel rhan o'i 'Raglen Adfer Gorfforaethol' (y Rhaglen). Datblygwyd y Rhaglen drwy ymgysylltu'n ddwys ac yn rheolaidd ag aelodau ac uwch swyddogion o bob rhan o'r Cyngor, a hynny cyn ac ar ôl yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2012. Newidiodd arweinyddiaeth a gweinyddiaeth y Cyngor yn sgil yr etholiad a chaiff ei arwain bellach gan y Grŵp Llafur.

66 Mae'r Rhaglen yn anelu at gyflawni pum canlyniad cyffredinol, a ategir gan 27 o feysydd i'w gwella a 149 o gamau gweithredu unigol. Mae'r holl gamau gweithredu hyn i'w cyflawni rhwng mis Mai 2012 a mis Ionawr 2014, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt i'w cwblhau yn ystod 2012-13. Erbyn mis Chwefror 2013: roedd 112 o gamau gweithredu yn cael eu cymryd o fewn y terfyn amser a bennwyd; roedd 24 o gamau gweithredu heb ddechrau eto; ac roedd y gweddill ar ei hôl hi. Fel rhan o'n gwaith yn 2013-14 byddwn yn parhau i adolygu cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu hyn a byddwn yn gwerthuso ac yn cyflwyno adroddiad ar ein casgliadau ynghylch a ydynt wedi cyflawni'r hyn a ddymunwyd o ran unioni'r gwendidau a nodwyd gennym yn flaenorol.

67 Ym mis Gorffennaf 2012, cytunodd y Cyngor i benodi'r Prif Weithredwr ar sail barhaol (fe'i penodwyd i'r swydd dros dro yn flaenorol). Yn gynharach yn 2012 penododd y Cyngor Gyfarwyddwr Adfer Addysg hefyd. Mae'r penodiadau hyn, ynghyd ag ymrwymiad Aelodau o bob grŵp gwleidyddol i weithio gyda'i gilydd, a'r gwaith arfaethedig o dan y Rhaglen Adfer Gorfforaethol, yn gamau pwysig i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor.

68 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ein hadroddiadau wedi dod i'r casgliad bod angen i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai gwendidau sylfaenol a hirsefydlog o ran diwylliant, perfformiad ac ymddygiad er mwyn gwella. Er mwyn bod yn llwyddiannus a sicrhau'r gwelliannau a geisiwyd, mae angen arweinyddiaeth effeithiol, trefniadau rheoli cyson a chyflawni ar y Cyngor er mwyn sicrhau bod y newidiadau y mae'n dechrau arnynt yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Gyda llai o adnoddau ar gael i gefnogi gwelliant ledled Cymru, rhai gwasanaethau sy'n methu, perfformiad gwael a gallu cyfyngedig, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol.

69 O ganlyniad daethom i'r casgliad bod y Cyngor ar hyn o bryd yn annhebygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13. O ystyried hanes diweddar y Cyngor a'r problemau dwfn y mae angen iddo eu goresgyn, byddwn yn parhau i fonitro cynlluniau'r Cyngor a chyflwyno adroddiad ar b'un a yw'r rhaglen newid hon yn sicrhau'r buddiannau a ddymunir.

70 Yn ein barn ni, nid oes angen gwneud unrhyw argymhellion ychwanegol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn barnu pa mor effeithiol yw cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r 'Rhaglen' yn ein hasesiad corfforaethol nesaf. Byddwn hefyd yn rhoi her barhaus ac yn parhau i adolygu gwasanaethau yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn gwerthuso a yw'r gwelliannau sydd eu hangen yn cael eu cyflawni ac a yw'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd gennym o'r blaen.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru

71 Mae *Adroddiad ar Berfformiad* y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012 yn diweddaru Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 ac mae'r rhain wedi cael eu diwygio o dan y weinyddiaeth newydd ym Mlaenau Gwent. Ar gyfer 2012-13 mae'r Cyngor wedi pennu tri chanlyniad lefel uchel y mae'n ymdrechu i effeithio arnynt yn ystod y pum mlynedd nesaf. sef:

- Sicrhau'r lefelau gorau posibl o ran dysgu a chyflawniad ymhlith plant a phobl ifanc.
- Mae pobl a chymunedau yn cael eu galluogi i'w help eu hunain.
- Mae'r amgylchedd byw yn llewyrchus ac yn atyniadol.

72 O dan y tri chanlyniad hyn ar lefel y boblogaeth mae Amcanion Gwella'r Cyngor. Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn esbonio pam a sut y dewiswyd y blaenoriaethau hyn a sut mae'r Amcanion Gwella yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor ac yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae angen gwella ansawdd bywyd pobl leol. Nodir y sail dros ddewis pob un o'r Amcanion Gwella yn glir ac mae'n cynnwys: adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor; safbwyntiau ei bartneriaid strategol a'i randdeiliaid; blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; a materion cymunedol lleol. Ar gyfer

2012-13 ymlaen mae'r Cyngor wedi diwygio ei Amcanion Gwella ac mae'n canolbwyntio ar 10 blaenoriaeth. Nodir y newidiadau yn yr Amcanion Gwella rhwng 2011-12 a 2012-13 yn Atodiad 4.

73 Rydym wedi nodi o'r blaen bod angen i'r Cyngor wella ansawdd y cynlluniau gweithredu a sefydlir ganddo er mwyn cyflawni gwelliant yn erbyn ei flaenoriaethau a chreu gwell mesurau o lwyddiant, pennu data a thargedau sylfaenol ar gyfer gwella y mae tystiolaeth ar gael yn eu cylch yn gyson. Yn y gorffennol mae'r anghysondebau hyn wedi golygu na fu modd mesur canlyniad gwaith y Cyngor o ran cyflawni'r Amcan Gwella, na barnu a yw'n cael effaith gadarnhaol.

74 Yn ein *Llythyr Asesu Gwella* cyntaf i'r Cyngor (mis Medi 2012), nodwyd bod darlun anghyson o'r cynnydd a wneir gan y Cyngor wrth ymateb i'n canfyddiadau. Ers hynny mae'r Cyngor wedi cyflwyno systemau newydd i gydgysylltu a rheoli'r broses o ymdrin â chanfyddiadau rheoleiddwyr allanol. Datblygwyd un cynllun gweithredu sy'n: nodi cynnydd o ran ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella; nodi'r dystiolaeth ategol sydd i'w defnyddio i farnu effaith y camau gweithredu arfaethedig; olrhain lle y caiff cynnydd ei fonitro a'i werthuso er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am welliant yn atebol am eu perfformiad.

75 Mae'r Cyngor wedi sefydlu system effeithiol i ymgysylltu â rheoleiddwyr allanol drwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng aelodau cabinet y Cyngor ac uwch swyddogion a chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGGCC. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfrwng effeithiol i gyfleu casgliadau gwaith rheoleiddio a rhoi cyfle i bob rheoleiddiwr fesur sut y mae'r Cyngor yn ymateb i ganfyddiadau arolygwyr ac asesiadau eraill. Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn agored i her ac mae'n mynd ati i ymgysylltu â rheoleiddwyr.

76 Un maes lle mae angen i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau atebolrwydd yw adroddiadau mewnol ar ein hadolygiadau o wasanaethau a'n hadolygiadau thematig. Yn aml ni chaiff y rhain eu cyflwyno i'r pwyllgorau craffu priodol a, hyd yn oed lle mae aelodau yn derbyn adroddiadau o'r fath, nid yw'r canfyddiadau bob amser yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gytbwys er mwyn galluogi'r pwyllgor i graffu ar berfformiad gwasanaeth a'i herio. Mae hyn yn gwanhau tryloywder ac nid yw'n cefnogi llywodraethu effeithiol. Mae'r Cyngor wrthi'n diwygio ei drefniadau craffu er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## Mae systemau rheoli cyllidebol yn parhau i weithio'n effeithiol ond mae diffyg yng nghyllideb 2012-13 a gwendidau yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cynnig heriau sylweddol o ran cynnal gwasanaethau yn y tymor canolig a'r hirdymor

77 Yn ein *Llythyr Asesu Gwella* cyntaf i'r Cyngor (mis Medi 2012) nodwyd i'r Cyngor fabwysiadu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig cyntaf ym mis Hydref 2011. Nodwyd nifer o wendidau gennym yn nhrefniadau cynllunio ariannol y Cyngor. Nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn dangos y mesurau manwl y mae angen i'r Cyngor eu cymhwyso er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau y mae'n eu hwynebu yn y tymor canolig o ran refeniw ac arian cyfalaf. Ceir diffyg gwybodaeth hefyd mewn meysydd allweddol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

78 Nodwyd gennym ym mis Medi 2012 mai cyfyngedig oedd gwaith y Cyngor ar newidiadau demograffig, safonau gwasanaethau, meini prawf cymhwyso neu gadernid gwasanaethau, yn bennaf am nad yw gwybodaeth am anghenion/galw yn y tymor canolig wedi'i datblygu'n dda ac nad yw ar gael yn hawdd. Yn y rhan fwyaf o feysydd gweithredu, nid yw'r Cyngor wedi pennu lefel y gwasanaeth na'r math o wasanaeth y mae am ei ddarparu ar sail asesiad o ofynion statudol ac anstatudol nac wedi pennu lefelau gwasanaethau ar sail safonau gofynnol y cytunwyd arnynt sydd eisoes wedi'u pennu. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiwygiedig wedi cael ei chyflwyno i'r Cyngor yn ddiweddar.

79 Bydd cyllideb refeniw o £133.56 million yn 2012-13. Ym mis Medi 2012 nododd y Cyngor ei fod wedi gorwario o £1.235 miliwn yn ei gyllidebau refeniw, yn bennaf oherwydd pwysau ariannol ym maes Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Erbyn mis Rhagfyr 2012 roedd y gorwariant yn y gyllideb a nodwyd wedi gostwng i ychydig o dan £1 filiwn, o ganlyniad i weithredu cyfres o fesurau yn y byrdymor. Mae'r rhain wedi cynnwys rhewi prosesau recriwtio a chyfyngu ar oramser, hyfforddiant, teithio a chyflenwadau a gwasanaethau. Er bod y mesurau hyn wedi galluogi'r Cyngor i leihau gwariant, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i gyflawni hyn.

80 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo gwariant cyfalaf gwerth £86.7 miliwn yn 2012-13. Ym mis Rhagfyr 2012 nododd y Cyngor ei fod wedi gwario £56.3 miliwn a bod £30.4 miliwn yn weddill yn ôl yr amcangyfrif i'w neilltuo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, sef 35 y cant o gyfanswm y gyllideb. Roedd y Cyngor hefyd yn nodi ei fod wedi gorwario tua £0.5 miliwn ar sawl prosiect cyfalaf.

81 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd gostyngiadau a ragwelir yn yr arian refeniw a'r arian cyfalaf gan y Llywodraeth a galw cynyddol am rai gwasanaethau. Mae angen i'r Cyngor leihau gwariant tua £4 miliwn er mwyn mantoli ei

gyllideb ar gyfer 2013-14 ac mae'n debygol y bydd yn rhaid iddo wneud arbedion blynyddol pellach oherwydd gostyngiadau a ragwelir mewn gwariant cyhoeddus yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwriadu cynyddu gwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol yn 2013-14, y mae'n amcangyfrif ei fod yn tanwario arnynt ar hyn o bryd o ryw £1 filiwn, ac mae wrthi'n nodi opsiynau i gyflawni hyn.

82 Fel llawer o gynghorau, mae Blaenau Gwent yn mynd ati i wneud arbedion drwy ostwng cyllidebau ryw ychydig a lleihau elfennau o'i wariant yn ystod y flwyddyn a diogelu gwasanaethau rheng flaen lle bynnag y bo modd. Er bod hyn wedi llenwi rhai o'r bylchau ariannu yn y byrdymor, nid yw'n cynnig yr adolygiad sylfaenol o gyllidebau sy'n dilyn egwyddorion dechrau o ddim ac archwiliad cadarn o opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau'n hyfyw yn ariannol yn y tymor canolig a'r hirdymor. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn dal i fod yn orddibynnol ar ei phroses gyllidebu flynyddol. Rydym wrthi'n cwblhau gwaith manwl ar effaith arbedion cyllidebol ar dri gwasanaeth er mwyn canfod a ydynt yn gallu parhau i gyflawni gofynion statudol y Cyngor heb lai o arian a'u cynaliadwyedd yn yr hirdymor. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

## Ym mis Tachwedd 2011 canfu ein hadolygiad o Adnoddau Dynol, er bod polisïau Adnoddau Dynol yn rhoi sylfaen y gellid adeiladu arni, nad oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i ddarparu gwasanaethau Adnoddau Dynol a oedd yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus.

83 Mae'n rhaid gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg er mwyn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau i ddinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae'r swyddogaeth Adnoddau Dynol yn helpu rheolwyr i gyflawni'r amcanion hyn.

84 Adolygwyd gwasanaethau Adnoddau Dynol gennym ar ddiwedd 2011-12 a chyflwynwyd adroddiad ar ein canfyddiadau ar ddechrau 2012-13 gan gasglu, er bod polisïau Adnoddau Dynol yn rhoi sylfaen y gellid adeiladu arni, nad oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i ddarparu gwasanaethau Adnoddau Dynol a oedd yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus.

85 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd canfuwyd nad oes gan y Cyngor weledigaeth strategol benodol ar gyfer Adnoddau Dynol, mae cymorth Adnoddau Dynol i wneud penderfyniadau wedi bod yn adweithiol yn aml, ac nid yw'r trefniadau cyflawni presennol yn cael eu mesur yn effeithiol drwy'r Cyngor cyfan. Canfuwyd bod polisïau yn cynnig sylfaen gadarn dros welliant mesuradwy mewn gweithgareddau Adnoddau Dynol drwy'r Cyngor cyfan a bod angen monitro'r defnydd a wneir ohonynt.

86 Mae gweithgarwch cynllunio'r gweithlu yn cael ei ysgogi gan gyllid ac nid yw wedi'i gysoni â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Nid yw Technoleg Gwybodaeth yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau Adnoddau Dynol ac ymdrinnir â hyn drwy gyflwyno cyflogres a system Adnoddau Dynol newydd yn 2013-14. Mae risgiau ym maes Adnoddau Dynol wedi cael eu nodi ac maent yn cael eu rheoli ond erys rhai heriau a risgiau sylfaenol mewn rhai meysydd y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy. Mae cysylltiadau â chyflogeion yn dda a dylai hyn helpu'r Cyngor i wneud y newidiadau i wasanaethau sydd eu hangen ym marn y Cyngor.

## Mae partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent ac maent wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith

87 O fis Ebrill 2011 dechreuodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen roi model integredig uchelgeisiol o iechyd a gofal cymdeithasol ar waith, o'r enw Rhaglen Eiddilwch Gwent. Mae gan Raglen Eiddilwch Gwent statws cyfreithiol o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33[7] rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum awdurdod lleol ac fe'i cefnogir gan £6.9 miliwn o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Mae nodau Eiddilwch Gwent yn berthnasol iawn i'r ffordd y mae'r cyrff dan sylw yn y sector cyhoeddus yn defnyddio eu hadnoddau ac maent wrth wraidd y gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwella ym mhob un o'r asiantaethau dan sylw.

88 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu rhaglen Eiddilwch Gwent, a ganolbwyntiodd ar roi sicrwydd cynnar o ran trefniadau llywodraethu a chyfeiriad teithio tuag at gyflawni nodau a chanlyniadau bwriadedig, yn hytrach na gwerthuso llwyddiant. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis cychwyn y mae'r gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, yn newid ymddygiad sefydledig ac yn dangos ei heffaith.

89 Mae ein hadroddiad yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella. Mae Bwrdd y Rhaglen yn rhoi'r cynigion hyn ar waith ac mae wrthi'n cwblhau cynllun gweithredu i ymdrin â'r argymhellion hyn. Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd y rhaglen a byddwn hefyd yn monitro'r cynllun gweithredu. Rydym hefyd yn rhagweld y byddwn yn cynnal gwaith dilynol.

7 Lluniwyd cytundeb partneriaeth o dan Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i'w gwneud yn bosibl i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfuno cyllidebau i gyflawni prosiect Eiddilwch Gwent.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni Y Gweithfeydd

90 Prosiect adfywio safle'r hen weithfeydd dur yng Nglynebwy yw 'Y Gweithfeydd Glynebwy' (Y Gweithfeydd). Nod y prosiect uchelgeisiol hwn yw trawsnewid safle 200 erw drwy fuddsoddi tua £169 miliwn. Ariennir Y Gweithfeydd drwy nifer o ffynonellau a phartneriaethau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, arian cydgyfeirio gan yr Undeb Ewropeaidd a Chyngor Ewrop. Mae hefyd yn rhaglen gymhleth sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i lawer o ddinasyddion ac ar adfywio Glynebwy yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ffisegol.

91 Ym mis Tachwedd 2011 adolygwyd effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd gan y Cyngor i oruchwylio a rheoli'r broses o gyflawni'r Gweithfeydd. Daethom i'r casgliad, er bod trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer Y Gweithfeydd, nad oedd y broses o nodi perfformiad bob amser yn gynhwysfawr ac nad oedd pob agwedd ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen gyfredol yn destun craffu effeithiol gan bob Aelod yn y Cyngor.

92 Ers hynny mae'r Cyngor wedi ymgymryd â gwaith sylweddol i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn gan gynnwys: diwygio cyfrifoldebau rheoli llinell er mwyn rheoli blaenoriaethau'r prosiect yn well; cyflwyno system adrodd ariannol newydd i oruchwylio gwariant a monitro gweithgarwch, gan swyddogion ac aelodau; a diwygio, mewn cydweithrediad agos â Llywodraeth Cymru, drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd er mwyn sicrhau gwaith craffu priodol ar y rhaglen. Mae ymrwymiadau datblygu mawr megis ysgol newydd i blant 3-16 oed a chyfleuster addysg ôl-16, Yr Ardal Ddysgu, ar agor bellach ac yn gwbl weithredol. Ym mis Ionawr 2013 nododd y Cyngor ei fod wedi gwario £112.4 miliwn a rhagwelodd ymrwymiadau gwerth £51.9 miliwn a fyddai'n arwain at danwariant o £2.3 miliwn.

## Nid yw trefniadau llywodraethu na rheoli prosiect Ardal Adnewyddu Six Bells yn gynhwysfawr ac nid ydynt wedi helpu'r Cyngor i adfywio cymuned Six Bells yn effeithiol yn ôl y bwriad

93 Ym mis Medi 2003 cyhoeddodd y Cyngor Ardaloedd Adnewyddu Cymdogaeth Six Bells[8], sy'n nodi ei fwriad strategol i fagu hyder yn y pentref drwy wella adeiladwaith ffisegol y stoc tai bresennol a chael gwared ar adeiladau gwag, adfeiliedig a diangen. Cymeradwywyd targedau ehangach o ran y gymuned a seilwaith hefyd, gan gynnwys gwella cysylltiadau cymunedol, sicrhau amgylchedd o ansawdd uchel a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth. Datblygwyd yr amcanion hyn i lunio cynllun gweithredu manwl i Six Bells a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

8 Mae cynlluniau adnewyddu ardaloedd yn galluogi awdurdodau lleol i dargedu gweithgarwch a buddsoddiad ar ardaloedd sydd angen cymorth ond sydd hefyd â'r potensial i'w hadfywio. Felly, nid gwella tai yn unig yw diben Ardaloedd Adnewyddu Cymdogaethau ond hefyd yr amodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n arwain at adfer hyder yn yr ardal. Er mwyn dynodi ardal yn Ardal Adnewyddu, mae'n ofynnol i gynghorau gynnal asesiad manwl o'r Ardal Adnewyddu Cymdogaeth a datblygu cynllun cyflawni clir wedi'i ariannu a'i reoli'n briodol.

94 Yn achos prosiectau buddsoddi mawr o'r fath mae'n bwysig bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar waith i sicrhau trefn lywodraethu dda wrth wneud penderfyniadau. Cynlluniwyd rhaglen yr ardal adnewyddu i bara am wyth mlynedd o 2003-04 i 2010-11. Yn y cynllun gweithredu gwreiddiol nododd y Cyngor fod angen rhyw £16 miliwn i gyflawni ei amcanion gwella a gwella hyd at 400 o gartrefi yn Six Bells. Erbyn 2011, roedd y Cyngor wedi buddsoddi £12.4 miliwn yn yr ardal adnewyddu a dim ond 111 o gartrefi a oedd wedi'u gwella ac roedd y cynllun i gyd ar ei hôl hi'n sylweddol.

95 Mae hyn wedi arwain at anhapusrwydd cynyddol ymhlith trigolion lleol a chwynion i'r Aelod Seneddol lleol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cynhaliwyd adolygiad gennym mewn ymateb i hynny gan ystyried effeithiolrwydd yr adnoddau a'r trefniadau rheoli a llywodraethu a gyflwynwyd gan y Cyngor i oruchwylio a rheoli prosiect Ardal Adnewyddu Six Bells. Canfu ein hadolygiad nad yw trefniadau llywodraethu na rheoli prosiect Ardal Adnewyddu Six Bells yn gynhwysfawr ac nid ydynt wedi helpu'r Cyngor i adfywio cymuned Six Bells yn effeithiol. Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r canfyddiadau hyn wrth gwblhau'r broses o gyflawni'r prosiect hwn.

## Mae Gwasanaeth Cyflawniad Addysg newydd ar gyfer De-ddwyrain Cymru wedi cael ei greu ac mae'n canolbwyntio ar wella lefelau cyrhaeddiad o fewn ysgolion ond mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar effaith y gwasanaeth

96 Ym mis Medi 2012, sefydlodd Consortiwm De-ddwyrain Cymru y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg ar gyfer De-ddwyrain Cymru[9]. Crëwyd y Gwasanaeth Cyflawniad Addysgol gan y pum awdurdod lleol er mwyn gwella safonau addysg. Bydd y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg yn monitro, yn cefnogi ac yn herio ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad. Mae buddiannau'r gwasanaeth yn cynnwys gwell gallu ac adnoddau i helpu'r ysgolion hynny y mae angen eu herio, defnyddio data yn fwy effeithiol i ganolbwyntio ar ganlyniadau, nodi arfer da ar draws ysgolion y gellir ei ddefnyddio i wella canlyniadau, trefniadau gweinyddu mwy effeithlon a hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol.

97 Fel rhan o'r dull cydweithredol o wella addysg, mae'r Cyngor wedi cytuno i benodi Prif Swyddog Addysg ar y cyd ar gyfer Casnewydd a Blaenau Gwent o fis Chwefror 2013.

9 Mae'n cynnwys pum awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thor-faen ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant sy'n eiddo ar y cyd ac sy'n rhoi cymorth i ysgolion wella ac yn llywio cyrhaeddiad addysgol.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli gwybodaeth yn datblygu ac nid ydynt wedi'u sefydlu'n llawn eto. Mae'r cydweithredu cynyddol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sicrhau manteision a dylai roi'r cyfle i'r Cyngor wneud cynnydd yn gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau cyfredol

98 Yn 2010, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn ymgodymu â defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i helpu i drawsnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd; o ganlyniad, cynhelir adolygiadau o'r trefniadau rheoli gwybodaeth ym mhob cyngor yng Nghymru. Daeth ein hadolygiad o'r Cyngor i'r casgliad bod trefniadau ar gyfer rheoli gwybodaeth yn datblygu ac nad ydynt wedi'u sefydlu'n llawn eto. Mae'r cydweithredu cynyddol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sicrhau manteision a dylai roi'r cyfle i'r Cyngor wneud cynnydd yn gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau cyfredol.

99 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd canfuwyd bod trefniadau newydd y Cyngor ar gyfer llywodraethu a rheoli gwybodaeth yn gadarn ond bod angen eu sefydlu'n llawn a'u hymgorffori, cyn y bydd modd gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn briodol. Mae'r diffyg strategaeth wybodaeth ffurfiol yn ei gwneud hi'n anodd deall nodau ac uchelgeisiau cyffredinol y Cyngor o ran llywodraethu gwybodaeth. Cymysg yw'r perfformiad o ran rheoli gwybodaeth. Mewn rhai meysydd allweddol, megis diogelwch gwybodaeth electronig a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ond mae gwendidau mewn meysydd allweddol eraill megis adfer ar ôl trychineb yn achosi rhywfaint o risg i'r Cyngor.

100 Yn dilyn ein hadolygiad gwnaethom nifer o gynigion ar gyfer gwella, a geir yn Atodiad 5 i'r adroddiad hwn (cynigion C11 – C18). Y Prif Swyddog Cyllid, fel yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth sy'n gweithredu ein cynigion ar gyfer gwella drwy'r Fforwm Llywodraethu Gwybodaeth.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Flaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

## Y Cyngor

Cyllideb refeniw’r Cyngor yw £176 miliwn ar gyfer 2012-13. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,310 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd gan y Cyngor gyllideb gyfalaf o £107 miliwn hefyd.

Yn 2011-12, treth gyngor Band D ar gyfer Blaenau Gwent oedd £1,426 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.6 y cant i £1,462 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 96 y cant o dai Merthyr Tudful yn y bandiau treth gyngor A i D.

Mae’r Cyngor yn cynnwys 42 o aelodau etholedig sy’n cynrychioli’r gymuned ac sy’n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 8 Aelod Annibynnol;
- 33 o’r Blaid Lafur;
- 1 nad yw’n aelod o unrhyw blaid.

David Waggett yw Prif Weithredwr y Cyngor. Liz Majer yw’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol; Dave McAuliffe yw’r Cyfarwyddwr Adnoddau; Richard Crook yw’r Cyfarwyddwr dros dro dros Adfywio a’r Amgylchedd: John Parson yw Cyfarwyddwr Y Gweithfeydd.

## Gwybodaeth arall

Aelodau’r Cynulliad dros Flaenau Gwent ar gyfer 2011-2016 yw:

- Alun Davies, Blaenau Gwent, Llafur
- Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru, Plaid Cymru
- Lindsay Whittle, Dwyrain De Cymru, Plaid Cymru
- William Graham, Dwyrain De Cymru, y Blaid Geidwadol

Yr Aelod Seneddol dros Flaenau Gwent ar gyfer 2010-2015 yw:

- Nick Smith, Blaenau Gwent, Llafur

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.blaenau-gwent.gov.uk neu cysylltwch â’r Cyngor yn yr Adeiladau Bwrdeistrefol, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy, Gwent NP23 6XB.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad archwilydd fel a ganlyn ar 28 Tachwedd 2012.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- roi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2012 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2012. At hynny, cyflwynwyd fy Memorandwm o Ddatganiadau Cyfrifyddu (sef adroddiad manylach sy'n crynhoi casgliadau ac argymhellion fy archwiliad o ddatganiadau ariannol 2011-12) i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Tachwedd 2012.

Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft yn unol â'r terfyn amser gofynnol ac mae ansawdd y papurau gwaith ategol yn parhau i wella. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd yn y datganiadau ariannol.

Daethom i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig y Cyngor i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Fodd bynnag, mae fy Memorandwm o Ddatganiadau Cyfrifyddu yn amlinellu ble mae lle i wella rhai o'r rheolaethau sydd ar waith. At hynny, nododd gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ynglŷn â Chynllun Ardal Adnewyddu Six Bells anawsterau i gysoni gwybodaeth a gyflwynwyd gan Wasanaeth Tai ac Iechyd yr Amgylchedd yn llawn â gwybodaeth ar gyfriflyfr ariannol y Cyngor. Cadarnhaodd y bydd yn sicrhau bod y trefniadau rheoli costau prosiect manwl a ddefnyddir gan ei Wasanaeth Tai ac Iechyd yr Amgylchedd yn gyson â'i system gyfrifyddu ganolog yn y dyfodol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12, nododd y Cyngor ddiffyg cyffredinol o tua £1.1 miliwn yn y gyllideb refeniw ar draws pob gwasanaeth ac mae'n parhau i wynebu sefyllfa ariannol heriol yn 2012-13, ar ôl nodi diffyg o tua £1.2 miliwn yn y gyllideb refeniw ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymdrin â'r sefyllfa o ran y diffyg sy'n gwaethygu drwy gyfuniad o ryddhau cronfeydd wrth gefn, cyfyngu ar wariant mewn nifer o feysydd yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol a thrwy ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer y portffolios gwasanaeth sy'n nodi sefyllfa anffafriol iawn o ran eu cyllideb.

Yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2012, mae'r Cyngor wedi achub ar y cyfle i ddiwygio ei drefniadau rheoli ariannol a chynllunio ariannol drwy'r Awdurdod ac mae wedi sefydlu Grŵp Ffocws Cynllunio Ariannol. Diben y grŵp hwn, sy'n cynnwys Aelodau o'r Weithrediaeth a Phwyllgorau Craffu, yw datblygu cynigion cynllunio ariannol i'w hargymell wedyn i'r Weithrediaeth.

Bydd y Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a bydd angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau bod hon yn cael ei hymgorffori fel rhan o'i drefniadau ariannol prif ffrwd a bod risgiau a chyfleoedd ei brosiectau cydweithredol a rhaglen trawsnewid gwasanaethau yn cael eu cynnwys.

Yn debyg i lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n amlwg y bydd y Cyngor yn wynebu rhai penderfyniadau anodd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn ystod y tymor canolig / hirdymor os yw am fantoli'r gyllideb. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran datblygu ei drefniadau rheoli ariannol a chynllunio ariannol drwy gydol 2012-13.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

**Mike Usher (Cyfarwyddwr Grŵp, Archwilio Ariannol)**
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

28 Tachwedd 2012

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn *Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-2017*' sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.blaenau-gwent.gov.uk/CYM/council/166.asp. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 |
|---|---|
| Adrefnu addysg yng Nghwm Ebwy Fawr er mwyn gwella safonau addysgol | Mae plant y mae angen gofal arnynt yn cael y gofal hwnnw gan ofalwyr maeth lleol sy'n gallu rhoi lleoliadau sefydlog |
| Caiff pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) eu nodi'n gynnar a thrwy ymyriad caiff hyn ei atal | Gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol ym Mlaenau Gwent |
| Mae plant y mae angen gofal arnynt yn cael y gofal hwnnw gan ofalwyr maeth lleol sy'n gallu rhoi lleoliadau sefydlog | Gwneud ymyriadau ym mlwyddyn 11 sy'n cyfrannu at leihau'r lefelau a gofnodir o bobl nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) |
| Caiff y bobl hynny sy'n agored i niwed ac y mae angen cymorth gan wasanaethau cymdeithasol arnynt eu galluogi i arwain bywydau annibynnol a bodlon, ac aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl. | Caiff y bobl hynny sy'n agored i niwed ac y mae angen cymorth gan wasanaethau cymdeithasol arnynt eu galluogi i arwain bywydau annibynnol a bodlon, ac aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl |
| Creu diwylliant o gymuned lle mae ailgylchu a lleihau gwastraff yn dod yn ymddygiad arferol i ddinasyddion, a thrwy hynny wella'r amgylchedd naturiol | Cynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Blaenau Gwent drwy roi cymorth uniongyrchol i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes |
| Gwrando ar ein dinasyddion a'u hannog i hyrwyddo, gyda'n cymorth, amgylchedd glân a dymunol i'w fwynhau ac ymfalchïo ynddo | Cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol |
| Cynnal a gwella'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel ac effeithiol | Cynnig amgylchedd glân a dymunol i'w fwynhau ac ymfalchïo ynddo drwy wrando ar ein dinasyddion a'n hymwelwyr a hyrwyddo'r hyn a wnawn. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 |
|---|---|
| Datblygu'r defnydd o dechnoleg newydd i gynnig dewis ehangach i gwsmeriaid o ran sut y gallant gael gafael ar wasanaethau'r Cyngor | Mae Canol Trefi yn fwy llewyrchus, atyniadol a hyfyw o ganlyniad i adfywio ffisegol a rheoli canol trefi er budd siopwyr a busnesau |
| Cynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Blaenau Gwent drwy roi cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes | Gan weithio gyda'n gilydd byddwn yn dod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer ac yn gwastraffu fawr ddim |
| Mae Canol Trefi yn fwy llewyrchus, atyniadol a hyfyw o ganlyniad i adfywio ffisegol a rheoli canol trefi er budd siopwyr a busnesau | Gwella'r ffordd yr ydym yn cydweithio â chwsmeriaid a gwasanaethau i ddatblygu sianelu mynediad (at wasanaethau'r Cyngor) |
| Gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion ym mhob ysgol | |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 wedi'i gynnwys yn *'Cynllun Gwella Corfforaethol 2012-2017'* ac mae ar gael yn: http://www.blaenau-gwent.gov.uk/CYM/council/166.asp.

# Atodiad 5
# Cynigion ar gyfer gwella 2012-13

Fel rhan o'n gwaith yn 2012-13, rydym wedi gwneud rhai cynigion newydd ar gyfer gwella. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor amdanynt eisoes ac fe'u nodir isod er gwybodaeth. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion ac i gyflwyno adroddiadau ar y cynnydd hwnnw o dan ein rhaglen waith yn y dyfodol.

| Cynigion ar gyfer gwella - Atgyfnerthu'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad a'i adnoddau a'i allu i sicrhau gwelliant ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt | |
|---|---|
| C1 | Cydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy:<br>• mynegi barn y Cyngor o'i lwyddiant o ran cyflawni ei Amcanion Gwella;<br>• defnyddio sail dystiolaeth ehangach o ran gwybodaeth er mwyn i'r Cyngor allu asesu a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella;<br>• ymestyn y defnydd o wybodaeth gymharol â chyrff tebyg eraill;<br>• sicrhau bod ei asesiad o berfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid. |
| C2 | Gwella'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad drwy:<br>• atgyfnerthu gallu corfforaethol er mwyn ysgogi gwelliant;<br>• cytuno ar gyfrifoldebau strategol am reoli perfformiad;<br>• datblygu a chyflwyno trefniadau mwy cydgysylltiedig, cydlynus a chadarn o ran rheoli perfformiad, cyflwyno adroddiadau arno, ei werthuso a'i wella. |
| C3 | Sicrhau bod gan bob gwasanaeth drefniadau effeithiol i reoli perfformiad, cyflwyno adroddiadau arno, ei werthuso a'i wella sy'n cael eu cymharu'n gyson â safonau gofynnol y cytunwyd arnynt ac sy'n destun craffu a herio cadarn. |

| Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Gwelliant | |
|---|---|
| C4 | Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddiwygio'r Blaengynllun ar yr Amcanion Gwella a mynd i'r afael â chasgliadau'r ymarfer hwnnw. |

| Cynigion ar gyfer Gwella – Cynllunio Ariannol Tymor Canolig | |
|---|---|
| C5 | Gwella ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir i nodi'r effaith ariannol debygol a gaiff y galw cynyddol am wasanaethau, newidiadau demograffig ac asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau statudol ac anstatudol y Cyngor. |
| C6 | Diwygio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gynnwys cynllun gweithredu sy'n dangos sut yr eir i'r afael â'r diffygion ariannol a ragwelir a sut y caiff pwysau ar wasanaethau eu rheoli yn y dyfodol. |

| Cynigion ar gyfer gwella - Ardal Adnewyddu Six Bells/Rheoli'r Prosiect | |
|---|---|
| C7 | Mynd i'r afael â gwendidau o ran amrywiaeth a chwmpas adroddiadau'r prosiect drwy gynnwys:<br>• gwybodaeth am berfformiad cyllidebol ar hyd y flwyddyn sy'n dangos cyfanswm cost y prosiect, ffynonellau ariannu, ymrwymiadau, arian nas clustnodwyd ac arian sydd heb ei sicrhau eto;<br>• risgiau'r prosiect a gweithgarwch lliniaru i fynd i'r afael â'r rhain;<br>• asesiad o gynnydd yn erbyn targedau a chamau gweithredu cynllun gweithredu'r prosiect gan gynnwys cerrig milltir prosiectau unigol. |
| C8 | Adolygu'r ystod bresennol o ddata perfformiad y prosiect a sicrhau bod amrywiaeth cynhwysfawr o fesurau perfformiad priodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith ar gyfer prosiectau mawr a fydd yn ei gwneud yn bosibl i asesu effaith a chanlyniadau. |
| C9 | Cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar berfformiad prosiectau mawr i'r Weithrediaeth a'r tîm Craffu bob chwarter gan roi'r diweddaraf ar berfformiad a chynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu prosiectau er mwyn cryfhau atebolrwydd dros y prosiect. |

| Cynigion ar gyfer Gwella – Adolygiad o Adnoddau Dynol | |
|---|---|
| C10 | Mae angen i'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• pennu gweledigaeth benodol ar gyfer Adnoddau Dynol ac yna weithio tuag at ei chyflawni;<br>• asesu materion o ran gallu adnoddau dynol wrth i agenda darparu gwasanaethau'r Cyngor newid;<br>• blaenoriaethu'r agenda adnoddau dynol yn unol â hynny;<br>• cwblhau'r gwaith o weithredu cytundeb Statws Sengl, sy'n cael ei baratoi ar ei ffurf derfynol ar hyn o bryd, a llunio'n derfynol drefniadau ar gyfer lwfansau trafnidiaeth a darpariaethau diswyddo dewisol yn y dyfodol<br>• rheoli'n weithredol risgiau adnoddau dynol sy'n gysylltiedig â chyfuno gwasanaethau a gweithio o fewn consortia gwasanaethau. |

| Cynigion ar gyfer Gwella – Adolygiad o Reoli Gwybodaeth | |
|---|---|
| C11 | Datblygu Strategaeth Wybodaeth i sicrhau bod cynlluniau rheoli gwybodaeth yn y dyfodol yn adlewyrchu'n gywir y cyd-destun cenedlaethol a lleol. |
| C12 | Datblygu cyfres o ddogfennau polisi ac arweiniad ategol er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu, strwythurau staff a rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. |
| C13 | Datblygu a gweithredu cynllun cyflawni Strategaeth Wybodaeth i fwrw ymlaen â materion sy'n ymwneud â gwybodaeth yn y sefydliad. |

| | |
|---|---|
| C14 | Sicrhau bod yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn cael ei friffio'n llawn ar bob agwedd ar lywodraethu gwybodaeth er mwyn goruchwylio materion sy'n ymwneud â gwybodaeth ar raddfa gorfforaethol a bod yn gyfrifol amdanynt, yn enwedig:<br>• sefydlu safonau a pholisïau;<br>• monitro cydymffurfiaeth â safonau a pholisïau;<br>• hyfforddiant rheoli gwybodaeth;<br>• dysgu o ddigwyddiadau a materion gwybodaeth a mynd i'r afael â'r digwyddiadau a'r materion hynny;<br>• rheoli risgiau gwybodaeth. |
| C15 | Sefydlu cofrestr ganolog o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a datblygu cynllun i drosglwyddo pob protocol rhannu sy'n bodoli eisoes i safon Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru; ar ôl cwblhau hyn mae'n rhaid i'r Cyngor roi prosesau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r safon hon. |
| C16 | Oedi ac adolygu'r ffordd y gweithredir y System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau er mwyn asesu cynnydd a chyfeiriad, yn benodol ystyried nodau'r Cyngor ar gyfer y system er mwyn sicrhau y bydd y dull gweithredu presennol yn cyflawni'r nodau hyn yn effeithiol. |
| C17 | Sicrhau y cedwir data digonol y tu hwnt i'r terfyn naw milltir a argymhellir fel y gellir adfer gwybodaeth y gwasanaeth yn llawn os ceir trychineb. |
| C18 | Adolygu ac adnewyddu cynnwys Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys cynllun cyhoeddi'r Cyngor y mae'r Cyngor yn ei gyhoeddi ar ei wefan allanol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk